

# Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

---

Lleoliad:

Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

Dyddiad:

Dydd Mercher, 17 Medi 2014

Amser:

09.00

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

029 2089 8639

[Pwyllgorac@cymru.gov.uk](mailto:Pwyllgorac@cymru.gov.uk)

---

**Rhag-gyfarfod anffurfiol (09.00 – 09.15)**

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon**

**2 Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol (09:15 – 10:00)**

(Tudalennau 1 – 20)

E&S(4)-20-14 papur 1

Carl Sargeant AC, y Gweinidog Cyfoeth Naturiol

Matthew Quinn, y Cyfarwyddwr Cyfoeth Naturiol

Prys Davies, Dirprwy Gyfarwyddwr: Yr Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd

**Egwyl (10.00–10.10)**

**3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitemau 4 a 5**

**Sesiwn breifat**

**4 Cynnig cydsyniad deddfwriaethol ynghylch y Bil Seilwaith: Ystyried**

**adroddiad drafft** (Tudalennau 21 – 34)

E&S(4)-20-14 papur 2

**5 Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): Paratoi ar gyfer ystyriaeth y Pwyllgor (10:10 – 11:45)**

Sesiwn gyhoeddus

**6 Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd (11:45 – 12:30)**

(Tudalennau 35 – 52)

E&S(4)-20-14 papur 3

Rebecca Evans AC, y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

**7 Papurau i'w nodi**

**Cynnig gan y Comisiwn Ewropeaidd ar rwydi drifft: Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth a Physgodfeydd i lythyr gan y Cadeirydd ar 24 Mehefin** (Tudalennau 53 – 54)

E&S(4)-20-14 papur 4

**Ymchwiliad i Ailgylchu yng Nghymru: Gwybodaeth bellach gan WRAP Cymru**

(Tudalen 55)

E&S(4)-20-14 papur 5

**Cynnig cydsyniad deddfwriaethol ynghylch y Bil Seilwaith: Ymateb gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon i lythyr gan y Cadeirydd ar 21 Gorffennaf** (Tudalennau 56 – 59)

E&S(4)-20-14 papur 6

**Polisi dŵr yng Nghymru: Llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon at y cadeirydd** (Tudalennau 60 – 61)

E&S(4)-20-14 papur 7

**Ymchwiliad i gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer yr M4 o amgylch Casnewydd: Ymateb gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i'r adroddiad a gyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf.** (Tudalennau 62 – 70)

E&S(4)-20-14 papur 8

**Ymchwiliad i effeithlonrwydd ynni a thlodi tanwydd yng Nghymru: Rhagor o wybodaeth gan Gyngor ar Bopeth Cymru (Tudalennau 71 – 72)**

E&S(4)-20-14 papur 9

**Ymchwiliad i ddiogelu'r arfordir: Ymateb gan y Gweinidog Tai ac Adfywio i'r llythyr gan y Cadeirydd ar 16 Mehefin (Tudalennau 73 – 74)**

E&S(4)-20-14 papur 10

**Craffu ar waith y Gweinidog Cyfoeth Naturiol**

Mae'r papur hwn yn ymateb i elfennau Cyfoeth Naturiol llythyr y Pwyllgor dyddiedig 6 Mehefin a gyfeiriwyd at y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd.

***Bioamrywiaeth***

1. Bydd y Cynllun Adfer Natur yn nodi'r camau gweithredu strategol y bydd Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac eraill yn eu cymryd er mwyn atal ein bioamrywiaeth a'n byd natur rhag diflannu, gan gynyddu gwydnwch ein hamgylchedd naturiol a gwella'r buddiannau i economi a chymdeithas Cymru.
2. Caiff ymgynghoriad ei lansio ar y Cynllun Adfer Natur yng Nghynhadledd Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar 10 a 11 Medi, a disgwylir i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi ddechrau 2015. Datblygwyd y gwaith drwy fwrdd traws-sector sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff natur a chyrff amgylcheddol, undebau ffermio, buddiannau coedwigaeth a buddiannau tirlfeddianwyr, a llywodraeth leol.
3. Nod y Cynllun Adfer Natur yw hwyluso'r newid o'r dull traddodiadol o ymdrin â bioamrywiaeth i'r dull integredig yn seiliedig ar ardaloedd sy'n gysylltiedig â Rheoli Adnoddau Naturiol, a fydd yn un o nodweddion allweddol Bil arfaethedig yr Amgylchedd. Mae'r cynllun yn anelu at roi ffocws clir i gamau gweithredu sy'n ymwneud â bioamrywiaeth fel rhan annatod o Reoli Adnoddau Naturiol.
4. Mae'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn canolbwyntio ar gynyddu gwydnwch sylfaenol ein systemau naturiol er mwyn gosod sylfaen i sicrhau buddiannau bioamrywiaeth ac atgyfnerthu buddiannau cyhoeddus ehangach. Mae'n cydnabod realiti'r rhyng-ddibynniaeth rhwng byd natur a ffactorau cymdeithasol ac economaidd, ac yn pwysleisio'r dull gweithredu ar raddfa tirlun sydd ei angen er mwyn mynd ati o ddifrif i atal y dirywiad o ran bioamrywiaeth a chynnal y gwasanaethau a ddarperir gan ein hamgylchedd naturiol.
5. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu Canolfan Wybodaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan gydweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Diben y Ganolfan Wybodaeth yw gwella mynediad i ddata a gwybodaeth am amgylchedd Cymru a'r trefniadau ar gyfer rhannu'r data a'r wybodaeth honno. Mae gwefan gychwynnol y Ganolfan Wybodaeth bellach yn fyw, gan roi cyfle i bobl gael gafael ar ddata cadarn, cyfredol:  
<http://lle.wales.gov.uk/environment?lang=cy>.

## **Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio**

6. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda Defra a llu o gyrrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol er mwyn cyflawni canlyniadau'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio. Mae Tasglu Pryfed Peillio Cymru bellach wedi'i sefydlu i roi'r Cynllun ar waith, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau bywyd gwyllt, gwenynwyr, awdurdodau lleol a'r llywodraeth.
7. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu'r sail dystiolaeth ar bryfed peillio, ac mae gwaith wedi dechrau i ddatblygu a phrofi cynllun monitro cenedlaethol ar gyfer pryfed peillio.
8. Nodwyd rheoli lleiniau ymyl ffordd fel maes i weithredu arno, ac mae'r Tasglu Pryfed Peillio wedi casglu ac wedi rhannu arfer da gydag awdurdodau priffyrdd. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fenter pum mlynedd Lleiniau Ymyl Ffyrdd ar gyfer Blodau Gwyllt ar gyfer traffyrdd a chefnffyrdd Cymru, a fydd yn creu lleiniau ymyl ffordd newydd yn llawn blodau gwyllt ac yn diogelu lleiniau o'r fath sy'n bodoli eisoes yn ogystal â gwella amodau ar gyfer blodau gwyllt drwy waith cynnal a chadw priodol.
9. Mae Glastir yn cynnwys yr adnoddau priodol, megis rheoli gweirgloddiau traddodiadol a chreu perllannau traddodiadol, a fydd yn helpu i greu a gwella cynefinoedd blodeuo amrywiol a chysylltiedig ar draws ardaloedd o ffermdir. Mae Glastir Uwch yn cynnwys amcanion targed ar gyfer rhywogaethau pwysig o wenyn ac ieir bach yr haf. Caiff contractau eu gwerthuso yn ddiweddarach eleni, er mwyn penderfynu p'un a ellid gwella'r trefniadau mewn rhai meysydd penodol, er enghraifft, yr amcanion targed sy'n ategu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Pryfed Peillio. Rhoddwyd cyngor rheoli i reolwyr tir hefyd drwy Gwlad a chaiff hyn ei ddatblygu ymhellach gyda Cyswllt Ffermio.
10. Er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r cynefinoedd pryfed peillio sy'n cael eu colli yng Nghymru ac i ddangos pa mor hawdd ydyw i greu cynefinoedd lleol i'n gwenyn a'n hieir bach yr haf, rhoddodd Llywodraeth Cymru gyllid i dros 200 o ysgolion a grwpiau cymunedol, yr oedd 7,500 o wirfoddolwyr yn gysylltiedig â hwy, drwy ymgyrch 'Penwythnos Gwyllt dros Gymru' Cadwch Gymru'n Daclus. Mae adroddiad wrthi'n cael ei baratoi ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## **Coedwigaeth**

11. Caiff polisi coedwigaeth ei arwain gan Lywodraeth Cymru gyda chymorth Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n rheoli ystad coedwigoedd cyhoeddus Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi rôl Partneriaeth Fusnes Coedwig Cymru sy'n gyfrifol am gefnogi busnesau a chadwyni cyflenwi, yn ogystal â rhoi cefnogaeth gyffredinol i'r sector. Rydym yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sector coedwigaeth breifat i ddatblygu strategaeth coed i Gymru er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau economaidd gorau wrth dorri coed o goetiroedd

cyhoeddus a phreifat. Mae'r broses hon yn gwbl gynhwysol, ac rydym yn gweithio gyda'r sector er mwyn sicrhau y caiff strategaeth gadarn a realistig ei llunio sy'n gynaliadwy ac yn gyflawnadwy, er mwyn diogelu buddsoddiad hirdymor yn y diwydiant prosesu coed yng Nghymru.

12. Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y sector yn sesiynau craffu diweddar Pwyllgor Amgylchedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi atgyfnerthu ei dîm coedwigaeth drwy benodi swyddog coedwigaeth profiadol (Ruth Jenkins) i swydd fel uwch reolwr gyda chymorth nifer o aelodau eraill o staff ag arbenigedd ym maes coedwigaeth. Mae'r sector preifat wedi croesawu'r datblygiad hwn a dylai arwain at well cyfathrebu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, tîm polisi coedwigaeth Llywodraeth Cymru a'r sector preifat yn y dyfodol.
13. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi trefnu seminarau i gontractwyr, tyfwyr preifat a'r sector i ystyried arfer gorau ar gyfer gweithrediadau coedwigaeth, wedi cynnal nifer o seminarau iechyd coed ac wedi cyfarfod â'r sector i drafod sut y gellid symleiddio'r trefniadau gweinyddol ar gyfer trwyddedau cwmpo coed. Mae cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru o'r sector coed a grwpiau rhanddeiliaid ehangach yn rhan o Grŵp Llywio Iechyd Coed Llywodraeth Cymru sydd wedi datblygu strategaethau ar gyfer iechyd coed a rheoli *Phytophthora ramorum*. Mae'r Grŵp wedi datblygu rhaglen hirdymor ar gyfer adfer coetiroedd yng Nghymru ar ôl y difrod a achosir gan *Phytophthora ramorum*.
14. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru bellach yn cyfarfod yn rheolaidd gyda'r sector ac mae wedi sefydlu Fforwm Rheoli Tir Cymru sy'n cynnwys dau gynrychiolydd o'r sector coedwigaeth i lywio'r ffordd y caiff ei gylch gwaith coedwigaeth ei roi ar waith fel rhan o drefniadau Rheoli Adnoddau Naturiol ehangach. Mae'n gobeithio atgyfnerthu ei rôl a'i ehangder er mwyn cynnwys mwy o gynrychiolwyr o'r byd coedwigaeth. Mae'r sefyllfa o ran ymagwedd Cyfoeth Naturiol Cymru at goedwigaeth yng Nghymru a'i gydberthynas â pherchenogion preifat wedi gwella.
15. Cafodd y cyhoeddiad yn Sioe Frenhinol Cymru bod cymorth wedi'i ddyfarnu i Cyfoeth Naturiol Cymru a Coed Cymru o dan y Gronfa Natur i hyrwyddo ymdrechion i greu coetiroedd a'u rheoli ei groesawu fel arwydd o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi coedwigaeth yng Nghymru.
16. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed i greu 100,000 hectar o goetir newydd dros yr 20 mlynedd nesaf ac mae mesurau yng nghynigion Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020 yn darparu cefnogaeth gadarn i goedwigaeth ac ymdrechion i greu coetiroedd yng Nghymru. Os caiff y Cynllun Datblygu Gwledig ei gadarnhau, dylai'r mesurau hyn gefnogi cynnydd parhaus yn nifer y coetiroedd a gaiff eu creu yn ystod y blynyddoedd nesaf.

## ***Newid yn yr Hinsawdd***

17. Dangosodd adroddiad blynyddol Llywodraeth Cymru ar newid yn yr hinsawdd ym mis Rhagfyr 2013 ein bod yn gwneud cynnydd yng Nghymru i leihau ein hallyriadau yn erbyn y targedau a bennwyd yn Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd 2010. Noda'r adroddiad hefyd y camau gweithredu allweddol a gymerwyd gennym i fynd i'r afael ag achosion a chanlyniadau newid yn yr hinsawdd yng Nghymru.
18. Er bod yr adroddiad yn dangos ein bod wedi rhagori ar ein targed blynyddol ar gyfer lleihau allyriadau, sef 3%, ar gyfer data 2011, bydd cynnal y gostyngiad hwn yn gynyddol heriol. Yn ogystal, noda'r adroddiad blynyddol fod angen i ni weithredu ymhellach er mwyn cyflawni ein gostyngiad mwy heriol o 40% mewn allyriadau erbyn 2020. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn adeiladu ar y cynnydd hwn.
19. Cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig ar ddiweddariad polisi ym mis Gorffennaf, gan gadarnhau ein bwriad i adolygu'r cynnydd a wnaed wrth roi camau gweithredu ymarferol ar waith ac ystyried y cyfraniadau a gawsom yn ddiweddar gan Gomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd a chyrrff arbenigol, er mwyn helpu i nodi camau gweithredu i gynyddu momentwm ymhellach.
20. Bydd y diweddariad polisi yn canolbwyntio ar y camau gweithredu ymarferol y gallwn eu cymryd mewn perthynas â'n targedau allyriadau, yn ogystal â sut y gall y camau hynny helpu i gyflawni blaenoriaethau ehangach y llywodraeth wrth anelu at Gymru carbon isel, sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon ac sy'n gymdeithasol gynhwysol.
21. Y sector Amaethyddiaeth a Defnydd Tir sy'n gyfrifol am 21% o'r allyriadau a gwmpesir gan y targed o 3% ac mae ganddo lefel allyriadau sylfaenol o 5.96 Mt CO<sub>2</sub>e.
22. Mae allyriadau amaethyddiaeth a defnydd tir wedi cynyddu ers 2009, yn bennaf o ganlyniad i etifeddiaeth hanesyddol o goedwigaeth sy'n heneiddio yng Nghymru a gostyngiad sylweddol cysylltiedig yn rhestr enghreifftiol y ddalfa goedwigaeth yng Nghymru. Mae'r cynnydd hwn yn allyriadau cyffredinol y sector yn adlewyrchu'r ffaith bod cnydau coedwigaeth a blannwyd gan fwyaf yn ystod y 1950au-1970au yn aeddfedu. Fodd bynnag, ystyrir bod y model wedi goramcangyfrif graddau'r effaith rhwng 2009 a 2010.
23. O ystyried y cynnydd bach, rydym wedi comisiynu adolygiad o'r adroddiad Defnydd Tir a Newid yn yr Hinsawdd, a fydd yn ystyried sut y gellir mireinio'r polisi lliniaru a'r polisi addasu yn y maes hwn fel rhan o'n camau nesaf. Bydd yr Adolygiad yn defnyddio argymhellion adroddiad y Grŵp Defnydd Tir a Newid yn yr Hinsawdd fel man cychwyn.

24. Y Cynlluniau Ymaddasu Sectorol yw'r prif gyfrwng a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i geisio sicrhau bod nodau ac amcanion ein sectorau yn ddigon cadarn mewn perthynas â'r hinsawdd ar gyfer y ganrif sydd i ddod.
25. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda grŵp Gorchwyl a Gorffen Ymaddasu'r Comisiwn Newid yn yr Hinsawdd i lunio canllawiau, offer ac adnoddau ar gyfer y sectorau.
26. Amrywiol fu'r cynnydd hyd yma rhwng y gwahanol sectorau ond bydd Cynlluniau Ymaddasu Sectorol yn ymdrin â'r pum sector canlynol:
  - Yr Amgylchedd Naturiol,
  - Seilwaith,
  - Iechyd,
  - Cymunedau
  - Busnes a Thwristiaeth
27. Mae Cynllun Ymaddasu Sectorol sefydledig eisoes ar waith o fewn y Sector Iechyd. Rydym wrthi'n gweithio ar hyn o bryd gyda'r sector twristiaeth ar brosiect a fydd yn ceisio nodi'r risgiau i'r diwydiant twristiaeth, creu asesiad risg lefel uchel ar gyfer busnesau twristiaeth yng Nghymru a darparu nifer o systemau ac adnoddau i helpu busnesau yn dilyn hyn.
28. Rydym yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu Cynllun Ymaddasu Sectorol ar gyfer sector yr amgylchedd naturiol gyda Chomisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd.

### ***Strategaeth Ddŵr***

29. Cynhaliwyd ymgynghoriad gennym yn ddiweddar ar ein Strategaeth Ddŵr i Gymru. Nododd y cyfeiriad ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru yn y dyfodol a sut y byddwn yn sicrhau bod dŵr yn parhau i ddiwallu anghenion cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.
30. Mae datblygu ffordd fwy integredig o reoli ein hadnoddau dŵr, fel rhan o'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol ehangach, yn allweddol i'r dull gweithredu a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad. Bydd hyn yn cynnwys trefniadau i gydgyssylltu'r broses o reoli tir, dŵr ac adnoddau cysylltiedig eraill er mwyn sicrhau buddiannau i'r gymdeithas ehangach a'r economi, yn ogystal â buddiannau i'r amgylchedd.
31. Daeth yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Ddŵr i Gymru i ben ar 4 Gorffennaf. Cafwyd cyfanswm o 59 o ymatebion gan amrywiaeth eang o sefydliadau gan gynnwys y diwydiant dŵr, grwpiau cadwraeth a grwpiau amgylcheddol, unigolion



preifat, busnesau, llywodraeth leol, sefydliadau iechyd y cyhoedd, rheoleiddwyr, cyrff proffesiynol a chynrychiolwyr defnyddwyr.

32. Caiff crynodeb o'r ymatebion ei gyhoeddi yn ystod yr hydref a bydd fy ngwaith i ystyried yr ymatebion hyn yn llywio'r broses o ddatblygu'r strategaeth derfynol.

### ***Adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o Lifogydd Arfordirol yng Nghymru***

33. Cynhaliodd Cyfoeth Naturiol Cymru adolygiad o lifogydd arfordirol, yn dilyn stormydd gaeaf mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014. Cyhoeddwyd yr adolygiad mewn dwy ran, gyda'r rhan gyntaf yn canolbwyntio ar yr effeithiau a'r costau cysylltiedig a'r ail ran yn ystyried y gwersi a ddysgwyd a'r argymhellion i'w rhoi ar waith.
34. Nododd rhan gyntaf yr adolygiad, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, o ganlyniad i'n buddsoddiad parhaus mewn rheoli perygl llifogydd a pherygl arfordirol, bod llai nag 1% o'r adeiladau a'r tir amaethyddol a oedd yn wynebu perygl posibl wedi profi llifogydd yn ystod stormydd y gaeaf. Cyhoeddwyd ail ran yr adolygiad ar 30 Ebrill ac roedd yn cynnwys 47 o argymhellion. Cyhoeddwyd ymateb ysgrifenedig i'r adolygiad hwn ar 22 Gorffennaf 2014 gan dderbyn pob un o'r 47 o argymhellion naill ai'n llwyr neu mewn egwyddor. Gwnaed y gwaith hwn gyda chymorth Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth a'r Gweinidog Cyllid.
35. Mae'r argymhelliad cyntaf yn gofyn am gynllun cyflawni i roi'r argymhellion ar waith ac i nodi blaenoriaethau, arweinwyr priodol ac adnoddau angenrheidiol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn chwarae rhan arweiniol yn y gwaith o lunio cynllun cyflawni, ochr yn ochr â swyddogion Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd. Cynhaliwyd gweithdy cychwynnol ar 31 Gorffennaf i ddechrau pennu cwmpas y cynllun cyflawni. Er mwyn llwyddo, mae angen iddo fod yn ddarn o waith cydweithredol gan gynnwys cyfraniad gan wahanol adrannau'r llywodraeth a'r holl awdurdodau rheoli perygl llifogydd a pherygl arfordirol.
36. Yn ogystal â'r argymhellion ar gyfer cynllun cyflawni, mae deg argymhelliad arall eisoes ar waith gan gynnwys gwaith ar ailfrandio Gwasanaeth Rhybuddio rhag Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru, y gwaith o baratoi ar gyfer ymarfer gwacáu arfordirol ac asesiad o'r newid amgylcheddol a ddeilliodd o'r stormydd.
37. Mae'r argymhellion yn cyflwyno'r heriau y byddwn yn eu hwynebu yn y dyfodol o ran cynnal a meithrin cadernid yn erbyn digwyddiadau o'r fath, yn arbennig o ystyried y risgiau cynyddol sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Gellir gweld ymateb Llywodraeth Cymru yn:  
<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/flooding/studies/coastal-review-part-2/?lang=cy>.

## ***Biliau arfaethedig gan y Llywodraeth***

38. Bu swyddogion yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Adran Tai ac Adfywio er mwyn sicrhau bod darpariaethau Bil yr Amgylchedd yn gyson â darpariaethau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Bil Cynllunio. Rhoddwyd sylw penodol i gyflawni'r nod cyffredin ar gyfer y Biliau hyn: symleiddio ac egluro prosesau rheoliadol presennol a rhoi seilwaith deddfwriaethol effeithiol a chydlynus ar waith ar gyfer datblygu cynaliadwy.

### Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

39. Bydd Bil yr Amgylchedd yn pennu fframwaith ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy, gan sefydlu datblygu cynaliadwy fel egwyddor arweiniol i helpu i sicrhau llesiant amgylcheddol. Bydd y dull gweithredu hwn yn llywio'r gwelliant o ran gwneud penderfyniadau a'r feddylfryd hirdymor sydd wrth wraidd Biliau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn helpu i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd gorau posibl i Gymru.
40. Bydd Bil yr Amgylchedd yn ategu'r cynigion o fewn Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arbennig mewn perthynas â chyfraniad Cyfoeth Naturiol Cymru i Gyngor Cynghori arfaethedig Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, ac fel aelod statudol o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn y dyfodol. Yn ymarferol, bydd y dull gweithredu hwn yn helpu i sicrhau y bydd tystiolaeth a blaenoriaethau allweddol mewn perthynas â rheoli adnoddau naturiol ar y lefel leol yn llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol. Yn ogystal, bydd y cynigion cydategol o fewn y ddau Fil yn golygu bod rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy wrth wraidd adroddiad cyfnodol arfaethedig Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar ran cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.
41. Mae Bil yr Amgylchedd yn cynnig y dylid cyflwyno Datganiadau Ardal a fydd yn nodi'r cyfleoedd a'r heriau o ran rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy mewn ardal benodol. Drwy aelodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, bydd y wybodaeth hon yn llywio'r broses o ddatblygu'r Cynlluniau Llesiant.
42. O dan Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, byddwn yn pennu fframwaith newydd i Gymru ar gyfer mesur cynnydd er mwyn ategu'r nodau a bennwyd fel rhan o'r Bil. Bydd hyn yn adeiladu ar ein cyfres bresennol o ddangosyddion datblygu cynaliadwy i Gymru sydd eisoes yn mesur ein hymdrechion i ymdrin â materion amgylcheddol, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, drwy fesur allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac yn disodli'r gyfres honno.

## Y Bil Cynllunio

43. Rydym wedi cydweithio'n agos er mwyn sicrhau cysondeb rhwng Bil yr Amgylchedd a'r Bil Cynllunio. Mae dull gweithredu Bil yr Amgylchedd sy'n seiliedig ar ardaloedd yn anelu at ddarparu sail dystiolaeth o ansawdd uwch ar gyfleoedd a risgiau mewn ardal er mwyn darparu sail dystiolaeth glir a chyson a all lywio'r gwaith o baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd hyn yn ategu amcanion y Bil Cynllunio i wella'r broses o ddarparu gwasanaethau cynllunio lleol.
  
44. Byddai'r dull gweithredu hefyd yn darparu sail glir a chyson i Cyfoeth Naturiol Cymru roi cyngor ar geisiadau cynllunio.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

## Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

### Craffu ar waith y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd

1. Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth o bynciau amaethyddol sy'n perthyn i bortffolio Y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd.

### Hynt y paratodau ar gyfer rhoi'r PAC newydd ar waith

2. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno'n ffurfiol ei Gynllun Datblygu Gwledig (CDG) i'r Comisiwn Ewropeaidd (CE). Disgwylir i'r trafodaethau amdano ddechrau ddiwedd mis Mai a phara efallai tan fis Tachwedd neu fis Rhagfyr. Mae'r paratodau'n mynd rhagddynt ar gyfer rhoi'r cynlluniau sy'n rhan o'r CDG ar waith. Fe welwch fanylion y cynlluniau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru:  
<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/rural-development-plan-for-wales-2014-2020/documents-2014-2020/9067273/?skip=1&lang=cy>
3. Mae penderfyniadau ynghylch polisi ar gyfer pob agwedd ar Golofn 1 wedi'u cyflwyno i'r CE. Anfonwyd canllawiau i hawlwyd ym mis Gorffennaf a bydd Taliadau Gwledig Cymru'n cyhoeddi cyfres o ganllawiau byr ar y trefniadau newydd. Mae proses adolygu wedi'i sefydlu i ystyried ceisiadau i symud tir o un rhanbarth talu i'r llall.
4. Disgrifiwyd ein cynlluniau ar gyfer Glastir mewn datganiad llafar i'r cyfarfod llawn ar 17 Mehefin:  
[http://www.assemblywales.org/docs/rop\\_xml/140617\\_plenary\\_bilingual.xml](http://www.assemblywales.org/docs/rop_xml/140617_plenary_bilingual.xml). Bydd yn rhaid i'r CE gymeradwy'r cynigion o dan y CDG. Eu nod yw diogelu adnoddau naturiol Cymru i'r cenedlaethau i ddod, cefnogi twf gwyrdd a magu cydnerthedd diwydiannau amaeth a choedwigaeth Cymru gan roi gwerth eu harian i drethdalwyr Cymru.

### Pynciau'r Diwydiant Amaeth

#### *Prisiau Llaeth a Chig Eidion*

5. Yn ôl ffigurau amodol mis Mai 2014, mae cynhyrchiant llaeth y DU 8.0% (99m litr) yn uwch na llynedd. Pris llaeth cyfartalog wrth gât y fferm yn y DU oedd 33.33cyl yn Ebrill, 0.39cyl (1.2%) yn is na phris mis Mawrth. Roedd pris Ebrill 2014 3.22cyl (10.7%) yn uwch na phris Ebrill 2013. Ym mis Mai 2014, roedd pris cyfartalog diesel coch, cost cynhyrchu allweddol, wedi codi 0.42cyl i 66.83cyl ers Ebrill 2014.
6. Yn yr ychydig fisoedd diwethaf, mae pris cig eidion wedi gostwng yn sylweddol. Pris gwartheg tew yn ocsiynau Cymru yr wythnos yn diweddu 14 Mehefin oedd 177c/kg; rhyw 32c yn is na 12 mis yn ôl. Pris pwysau marw eidion cyffredin o Brydain yr wythnos yn diweddu 14 Mehefin oedd 330c/kg, 70c yn is na'r un adeg yn 2013. Gyda charcas eidion yn pwyso ar gyfartaledd 374kg, mae hyn gyfwerth â gostyngiad o £262.00 yng ngwerth carcass i'r cynhyrchydd.
7. Mae nifer o resymau am y gostyngiad hwn yn y prisiau. Er enghraifft, gwelwyd cynnydd mawr yn y cig eidion rhatach sy'n cael ei fewnforio o Weriniaeth Iwerddon yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn gan ansefydlogi marchnad cig

eidion y DU. Dengys ystadegau'r HMRC fod mewnfurion o gig eidion o Iwerddon ym mhedwar mis cynta'r flwyddyn wedi cynyddu 15%. Hefyd, mae allfurion cig eidion Prydain yn ystod pedwar mis cynta'r flwyddyn dipyn is na ffigurau llynedd. Mae'r gostyngiad mewn allfurion ynghyd â'r cynnydd mewn cynhyrchiant a chynnydd sylweddol hefyd yn y mewnfurion wedi arwain at wasgfa am i lawr ar brisiau cig eidion.

8. Yng nghyfarfod Bwrdd Hybu Cig Cymru (HCC) ar 9 Mai, cytunwyd y byddai HCC yn cynnal adolygiad trylwyr o'r sector biff dros y misoedd i ddod. Bydd yr adolygiad yn pwysu a mesur cyflwr y sector yng Nghymru ac yn nodi ble mae yna gyfleoedd i ehangu a gwella. Bydd hefyd yn asesu gwendidau'r sector a'i bygythiadau ac yn edrych ar lefelau cynhyrchu ar y fferm ac o fewn y sector brosesu.

### ***Cynigion yr UE ar gyfer Ffermio Organig***

9. Amcanion cynigion yr CE ar gyfer ffermio organig yw, ymhlith eraill, crisialu'r rheolau, cau'r bylchau deddfwriaethol, sicrhau cystadleuaeth deg ar gyfer ffermwyr a gweithredwyr, lleddfu gofidiau'r defnyddiwr, dileu eithriadau yn y rheolau, symleiddio'r system reoli a diwygio'r system fasnachu.
10. Cyfrifoldeb yr Aelod-Wladwriaeth yw rheoliadau organig ac maent yn cael eu gweinyddu gan Defra ar ran y gwledydd datganoledig. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad clos â Defra i sicrhau bod llais i fuddiannau cynhyrchwyr organig Cymru ar fwrdd trafod yr CE.

### ***Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Labordai Milfeddygol (AHVLA) a dyfodol labordai yng Nghymru***

11. Yn 2011, cyhoeddodd yr AHVLA ganlyniadau ei hadolygiad o'i gwasanaeth profion labordy. Arweiniodd hynny at roi'r gorau i gynnal profion labordy yn y ddau labordy yng Nghymru, yng Nghaerfyrddin ac Aberystwyth. Cadwyd y ddau safle ar agor ar gyfer cynnal archwiliadau post mortem i filfeddygon preifat a ffermwyr.
12. Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn nifer yr archwiliadau post mortem sy'n cael eu cynnal yn labordy'r AHVLA yn Aberystwyth ac nid yw bellach yn hyfyw parhau i gynnal gwasanaeth o'r fath. Mae safle'r AHVLA yn Aberystwyth yn cau yn 2014 fel rhan o brosiect Goruchwyliaeth 2014. Rhoddwyd y gorau i gynnal profion post mortem ar y safle ym mis Mawrth 2013 a chafodd ei defnyddio fel canolfan i gasglu carcassau. Daeth y gwasanaeth casglu hwn i ben ar 1 Medi 2014.
13. Mae swyddogion yn gweithio gyda'r AHVLA a phartïon eraill i ystyried ailgyflwyno gwasanaethau ymchwilio milfeddygol yn Aberystwyth o dan ofal preifat neu drefniant di-elw.

### ***Cynhyrchu Amaethyddol Dwys***

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r angen am fusnesau ffermio proffidiol a chryf sy'n cynhyrchu cynaliadwyedd er budd gwlad economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol Cymru. Trwy'r safonau Trawsgydymffurfio, rhaid i ffermwyr o bob maint a dull gydymffurfio â safonau Amgylcheddol, Iechyd Cyhoeddus, Iechyd Planhigion, Iechyd Anifeiliaid a Lles Anifeiliaid y Gofynion Rheoli Safonol.

### **Gwaith yr Athro Gareth Wyn Jones ar gynhyrchu amaethyddol**

14. Mae'r Athro Gareth Wyn Jones wedi cwrdd â rhanddeiliaid a sefydliadau yn y ddau fis diwethaf fel rhan o'i waith ar sgiliau amaethyddol. Mae wedi adolygu nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r adolygiad hwn sy'n benodol i Gymru ac adroddiadau ar lefel y DU. Bydd yr adolygiad yn ystyried potensial Colegau Addysg Bellach allweddol sy'n darparu addysg amaethyddol i gymryd rhan mwy proactif i ddatblygu diwydiant amaeth proffidiol, byrlymus, mentrus a blaengar sy'n gallu cystadlu mewn byd fwyfwy cyfnewidiol.

### **Y Diweddaraf am TB Gwartheg**

15. Mae egwyddorion bras y Rhaglen Dileu TB Gwartheg yn cael eu hamlinellu yn y 'Fframwaith Strategol ar gyfer Dileu TB mewn Gwartheg':  
<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/bovinetberadication/tbstrategicframework/strategicframeworkfortberadication/?skip=1&lang=cy>
16. Cymeradwyodd y Comisiwn Ewropeaidd Raglen Dileu TB Llywodraeth Cymru fel rhan o Gynllun Dileu TB y DU sy'n cael ei ddiweddarau bob blwyddyn. Er mai amcan tymor hir yw dileu TB, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith da tuag at sicrhau statws swyddogol i Gymru fel gwlad heb TB.
17. Nifer yr achosion newydd sydd wedi'u cofnodi ers Chwefror 2014 hyd yma yw'r isaf ar gyfer unrhyw rai o'r misoedd hyn o'r bron ers 2008. Cafodd 5,936 o wartheg eu difa i reoli TB gwartheg rhwng Mehefin 2013 a Mai 2014 o'u cymharu ag 8,595 yn y 12 mis cyn hynny; gostyngiad o 31 y cant. (Y 12 mis blaenorol yw Mehefin 2012 – Mai 2013)

### **Lles Anifeiliaid**

#### ***Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014***

18. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Rheoliadau Lles Anifeiliaid Adeg eu Lladd (Cymru) 2014 ar 20 Mai. Mae'r Rheoliadau'n sicrhau lefel uchel o amddiffyniad i les anifeiliaid trwy reolau cenedlaethol ac mae'n cynnwys rhanddirymiad sy'n caniatáu eithrio'r amodau ar gyfer stynio anifeiliaid adeg eu lladd er mwyn diwallu anghenion cymunedau ffydd.
19. Roedd angen gwneud mân welliannau i'r deddfwriaeth ddomestig oherwydd newid cyfeiriad at "Dystysgrif Cymhwysedd" yn ein Rheoliadau ni. Daethant i rym ar 5 Medi.

#### ***Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014***

20. Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 a gyflwynwyd ym mis Mai, yn cynnwys â llawer o faterion yr oedd Llywodraeth Cymru am eu gweld ar gyfer rheoli cŵn.
21. Nid yw deddfwriaeth y DU yn rhoi'r un flaenoriaeth i berchenogaeth gyfrifol ar gŵn â'r polisi oedd yn sail i Fil Rheoli Cŵn (Cymru) Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried sut y dylai'r adolygiad o addysg a hyfforddiant ynghylch perchenogaeth gyfrifol fynd rhagddo yng Nghymru.



### **Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcasau**

22. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithio gyda Defra i gydgyflwyno deddfwriaeth sylfaenol i wahardd defnyddio anifeiliaid gwyllt mewn syrcasau yng Nghymru ac yn Lloegr. Byddwn yn parhau i wasgu am y darn pwysig hwn o ddeddfwriaeth yn y DU. Nid yw wedi'i gynnwys eto'n ffurfiol yn rhaglen ddeddfwriaethol y Senedd.

### **Panel Cynghori Cymru ar Amaethyddiaeth**

23. Yn dilyn penderfyniad yr Uchel-lys bod Bil Sector Amaethyddol (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, derbyniodd y Bil y Cydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2014. Bydd Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 yn cadw'r lefel bresennol o amddiffyniad i weithwyr amaethyddol yng Nghymru, gan hyrwyddo sgiliau gwell a phroffesiynoldeb a chyfrannu at gynaliadwyedd y sector amaethyddol. Datblygwyd y Ddeddf yn unol â blaenoriaethau Gweinidogion a strategaethau ehangach Llywodraeth Cymru gan gynnwys y Rhaglen Lywodraethu ac amcanion Hwyluso'r Drefn.
24. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth fydd yn sail ar gyfer datblygu'r diwydiant amaeth. Bydd y Panel yn cynghori Gweinidogion Cymru ar faterion amaethyddol fel cadw gweithwyr â chymwysterau da a denu talent newydd i'r sector yn ogystal â pharatoi Gorchmynion Cyflogau drafft a hyrwyddo sgiliau a llwybrau datblygu gyrfa o fewn y diwydiant.
25. Cafodd ymgynghoriad 12 wythnos yn gofyn i bobl am eu barn am waith a chyfansoddiad y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth ei lansio ar 7 Awst 2014. I'w weld, ewch i:  
<http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/consultation-on-agricultural-advisory-panel-for-wales/?skip=1&lang=cy>

### **26. Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) a Chronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF)**

27. Y brif fecanwaith ar gyfer cyflawni'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin newydd yng Nghymru yw Cronfa Môr a Physgodfeydd Ewrop. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau 8.4% o'r gronfa graidd ar gyfer Cymru sy'n cyfateb i ryw €12,222,467 dros gyfnod y rhaglen. Mae hon yn fargen dda i Gymru, bydd yn rhoi'r CFP ar waith yn effeithiol ac yn helpu i ddatblygu pysgodfeydd a dyframaeth gwyrdd a chlyfar yng Nghymru yn unol â gweledigaeth Cynllun Gweithredu Strategaeth y Môr a Physgodfeydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i roi'r rhaglen ar waith a bydd yr EMFF yn agor ar gyfer ceisiadau yn gynnar yn 2015.
28. Cyflwynodd yr CE gynigion yn ddiweddar ar gyfer gwahardd pysgota â rhwydi drifft yn nyfroedd yr UE. Ceir pryderon am hyn a bydd Llywodraeth Cymru felly'n annog adolygiad o'r cynigion a allai gael effaith fawr ar bysgodfeydd arfordirol bach yn y DU.

## **Y Cynllun Gweithredu ar Fwyd**

29. Cafodd 'Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020' ei lansio ar 12 Medi ac mae'n disgrifio'r cynigion sydd ar y gweill i gefnogi diwydiant bwyd a diod Cymru.

<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/action-plan-for-food-and-drink/?skip=1&lang=cy>

30. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i sicrhau 30% o gynnydd yn y trosiant erbyn 2020. Rhan ganolog y cynllun yw datblygu'r system helpu busnesau bwyd a diod, system sydd eisoes yn gweithio'n dda. Bydd yn diwallu anghenion penodol cynhyrchwyr ac yn eu helpu i ddatblygu ac ehangu eu busnes.

31. Rydym yn sefydlu Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru. Y Bwrdd fydd yn cynrychioli'r diwydiant ac yn hybu twf cynaliadwy. Mae Mr Robin Jones, Pennaeth y Village Bakery, wedi'i benodi'n Gadeirydd dros dro y Bwrdd cysgodol a bydd yn dechrau cyn hir ar ddewis aelodau addas ar gyfer y Bwrdd o bob rhan o'r diwydiant.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Rebecca Evans AC / AM  
Y Dirprwy Weinidog Amaeth a Physgodfeydd  
Deputy Minister for Agriculture and Fisheries



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MB/RE/3059/14

Alun Ffred Jones AM  
Chair of the Environment and  
Sustainability Committee  
National Assembly for Wales

18<sup>th</sup> July 2014

Dear Alun Ffred,

**Welsh Government Response to European Commission proposal for a ban on the use of driftnets**

Thank you for your letter to my predecessor Alun Davies AM dated the 24 June to outline the concerns of the Environment and Sustainability Committee regarding the recently announced proposal by the European Commission for a prohibition on the use of driftnets in EU waters. I very much share your concerns on the potential impact on the activity of our Welsh fishermen.

It is quite clear to me that in setting out the background to the proposal the EU Commission have identified some serious issues encountered in the large scale driftnet fisheries concerning incidental by-catch of species such as turtles, seabirds and marine cetaceans. In particular the issue seems to be prevalent where nets over 2.5 Km in length are being used to target highly migratory species such as tuna and swordfish. I understand the EU Commission have identified concerns over the enforcement and implementation of the rules and clearly the fisheries where the problems occur are in the Mediterranean, in the Baltic or on the High Seas and there seems little relevance to the small scale fisheries around the Welsh coast where we simply do not have the serious by-catch or enforcement issues that the Commission is trying to address.

The recommendation for a blanket ban is a very blunt and inappropriate way of tackling the problem with unintended but profound consequences on the small scale coastal fisheries such as the ones found around the coast in Wales and other parts of the UK for that matter. The numerous inshore fishermen actively using small scale driftnets in Wales fish for herring, bass, mullet and various other species. These fisheries are very selective with minimal by-catch and in turn provide a valuable part of the livelihood of small coastal

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300  
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400  
Correspondence.Rebecca.Evans@wales.gsi.gov.uk  
Printed on 100% recycled paper

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Tudalen y pecyn 53

communities. I have now received several queries from Welsh fishermen and stakeholders who are all opposed to the widespread nature of the proposal.

Consequently I have now written to the Defra Fisheries Minister George Eustice MP to clearly state my objection to the proposal as it stands and highlighting the inappropriateness of such a blanket proposal to our coastal fishery. I expect Defra to now write to the EU Fisheries Commissioner Madam Damanaki as the UK lead on Fisheries matters and express the concerns of the UK on this proposal. Additionally, my officials recently met with their counterparts in the European Commission to highlight our concerns and the potential economic impact of the proposal on the Welsh fleet and also explain the measures already in place to manage these fisheries.

My officials will continue to work with Defra, in drawing up a comprehensive policy approach should the Commission seek to proceed with the proposal. They have already contributed in detail to the Explanatory Memorandum now produced by Defra to highlight the effects of this proposal on fishermen, particularly on those based in small coastal communities. In progressing this issue we will be highlighting the unintended consequences of this proposal and be urging the Commission to take a more risk-based and regionalised approach. We will be working with other UK administrations to identify any fisheries which do pose a problem and develop specific solutions for them. I certainly do not consider that our small scale coastal fisheries pose any such by-catch threat. We will certainly question the Commissions evidence base in respect of small coastal fisheries such as exist in Wales. This approach is in line with the existing requirements of existing EU by-catch regulations on the use of certain types of nets in the North Sea and in Western waters where there is an issue of incidental catches of other vulnerable or protected species.

The next likely step will be for the UK Government to work together with like-minded EU Member States to develop an appropriate response to the Commission's proposals. We anticipate discussions in Brussels to commence soon. The Welsh Government will be fully involved in the debate to press for a more proportionate approach to resolve the issue and find a way forward which enables coastal driftnet fishing to continue round the Welsh coast.

I hope that my response provides some reassurance of the seriousness we have given to this matter.

Yours,  
Rebecca

**Rebecca Evans AC / AM**  
Y Dirprwy Weinidog Amaeth a Physgodfeydd  
Deputy Minister for Agriculture and Fisheries



**Rhaglen Gweithredu'r  
Cynllun Gwastraff ac  
Adnoddau**  
Tŷ Carlyle  
5-7 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd CF11 9RH

**Waste & Resources  
Action Programme**  
Carlyle House  
5-7 Cathedral Road  
Cardiff CF11 9RH

T 02920 100100  
W [www.wrapcymru.org.uk](http://www.wrapcymru.org.uk)

Item 7.2

22 July 2014

Alun Ffred Jones AM  
Chair, Environment and Sustainability Committee  
The National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

Re Inquiry into Recycling in Wales

Dear Chair

Thank you for inviting WRAP Cymru to give evidence as part of the aforementioned Inquiry. We appreciate the opportunity to contribute to the debate around this important topic and were particularly pleased by the Committee's recognition that reaching the Welsh Government's recycling targets is an issue for business as well as householders.

Indeed, while I appreciate that the Inquiry's focus is municipal waste it is important to recognise that high recycling of other wastes is also essential if Wales is to reach the target of recycling 70 per cent of all wastes by 2025. WRAP Cymru is working to grow the reprocessing sector in Wales and develop the market for high quality recycled content among Welsh manufacturers; in 2011 – 2012 we influenced £6.4 million of growth in Wales' resource recovery sector, our ERDF-funded ARID programme will create over 100 new Convergence Region jobs by 2015.

As Members noted, retailers and brands have an important role in facilitating the recycling of packaging and encouraging waste prevention. Through WRAP's Courtauld Commitment voluntary agreement the UK grocery sector reduced food and packaging waste by 1.7 million tonnes between 2010 and 2012; among the initiatives we are currently working on with signatories is a pilot project with Marks and Spencer and Sainsbury's examining how to increase recycling of black plastic food trays.

I note that in your evidence session of 25 June 2014, there was a question regarding whether the Inquiry should also consider waste prevention. I believe that this is a matter for Committee Members, however should the scope of the Inquiry be extended WRAP Cymru would be happy to provide evidence as to the value of waste prevention and how moving to a more circular economy could deliver significant benefits to Wales.

Yours sincerely

Marcus Gover  
Director WRAP Cymru

# Eitem 7.3

John Griffiths AC /AM  
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon  
Minister for Natural Resources, Culture and Sport



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref  
Alun Ffred Jones AM  
Chair of the Environment and Sustainability Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

19 Awst 2014

Dear Alun Ffred,

## Ymateb i Sylwadau Cychwynnol NFU Cymru ar Gynnig a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) y Bil Seilwaith

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Pwyllgor am ystyried y mater pwysig hwn yn eich cyfarfod ar 17 Gorffennaf. Diolch am eich llythyr dyddiedig 21 Gorffennaf 2014 a oedd yn cynnwys sylwadau gan NFU Cymru ynghylch LCM y Bil Seilwaith ("y Bil"). Byddaf yn ymateb i bob un o'u pwyntiau yn eu tro.

### 1. Mae angen egluro'r diffiniad o amgylchiadau eithriadol yn yr adran ar bwerau.

Nid oes cyfeiriad at "amgylchiadau eithriadol" yn y Bil. Defnyddiwyd yr ymadrodd hwnnw ym mharagraff 9 yr LCM i ddangos y bydd pwerau cytundeb/gorchymyn rheoli rhywogaethau yn cael eu defnyddio pan nad yw'n bosibl dod i gytundeb gwirfoddol. Mae'r Bil yn datgan bod yn rhaid i awdurdod amgylcheddol fod yn gwbl fodlon bod darpariaethau'r cytundeb yn gymesur â'r amcan i'w gyflawni cyn ymrwymo i gytundeb rheoli rhywogaethau gyda pherchennog.

Bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi Cod Ymarfer mewn perthynas â chytundebau/gorchymynion rheoli rhywogaethau. Bydd y Cod Ymarfer yn darparu cyngor ac arweiniad ynghylch sut bydd cytundeb/gorchymynion rheoli rhywogaethau yn cael ei weithredu, ac yn rhoi manylion ynghylch yr hyn sy'n cael ei ystyried yn gymesur. Rhaid i Weinidogion Cymru osod y Cod Ymarfer hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

